# Anesthesia epidwral yn ystod ac ar ôl llawdriniaeth

Mae'r daflen hon yn egluro beth i'w ddisgwyl os byddwch yn dewis cael epidwral i leddfu poen yn ystod ac ar ôl eich llawdriniaeth. Cafodd ei hysgrifennu gan anesthetyddion, cleifion a chynrychiolwyr cleifion, yn gweithio gyda'i gilydd.

## Cyflwyniad

Mae'r daflen hon yn egluro:

- beth yw epidwral
- pryd y caiff ei ddefnyddio
- pam y gallai fod o fudd i chi ar gyfer eich llawdriniaeth
- sut mae'n gweithio a beth y gallwch chi ei ddisgwyl
- risgiau a phenderfynu ar y cyd.

## Beth yw epidwral?

Math o anesthetig rhanbarthol yw epidwral sy'n golygu gosod tiwb mân, hyblyg (cathetr) yn eich cefn er mwyn rhoi anesthetig lleol a chyffuriau lladd poen i chi. Caiff ei ddefnyddio'n aml i leddfu poen wrth roi genedigaeth.

Gellir ei ddefnyddio fel anesthetig yn ystod llawdriniaeth (gyda neu heb anesthetig cyffredinol) neu ar gyfer rheoli poen ar ôl llawdriniaeth, neu'r ddau.

Gall y cathetr aros yn eich cefn ar ôl llawdriniaeth a gellir ei ddefnyddio i roi rhagor o feddyginiaeth lleddfu poen, naill ai â llaw neu â phwmp awtomatig. Yn ogystal, mae gan rai pympiau epidwral fotwm i chi ei wasgu eich hun i gael dos o feddyginiaeth i reoli eich poen. Mae terfynau diogelwch wedi'u gosod ar y pympiau hyn i leihau'r posibilrwydd y byddwch chi'n rhoi dos gormodol o'r cyffur i chi'ch hun, a bydd y tîm gofal iechyd yn cadw llygad arnoch chi'n rheolaidd.

Yn aml, gellir defnyddio epidwral ar ei ben ei hun neu gydag anesthetig cyffredinol ar gyfer gwahanol fathau o lawdriniaethau, er enghraifft, llawdriniaeth canser (yn enwedig canser yr ysgyfaint) a llawdriniaeth wroleg (ee, yr arennau a'r bledren).

## Beth yw manteision epidwral?

Ar gyfer rhai llawdriniaethau mae epidwral yn rheoli poen yn well na dulliau eraill, yn enwedig pan fyddwch chi'n anadlu'n ddwfn, yn pesychu neu'n symud o gwmpas yn y gwely.

Mae dulliau eraill o leddfu poen yn defnyddio morffin neu gyffuriau tebyg (opioidau). Mae'r rhain yn feddyginiaethau cryf i leddfu poen, ond gallant achosi sgil-effeithiau sy'n cynnwys cyfog, syrthni, rhwymedd a dibyniaeth (os cânt eu defnyddio dros gyfnod hir). Mae rhai pobl yn mynd yn ddryslyd pan fyddant yn cael morffin i leddfu poen.

Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod cael epidwral yn lleihau cymhlethdodau eraill yn dilyn llawdriniaeth, gan gynnwys llai o risg o gael clotiau gwaed yn y coesau neu'r ysgyfaint, haint ar y frest, a'r angen am drallwysiad gwaed.

## A all unrhyw un gael epidwral?

Dim ond ar gyfer rhai llawdriniaethau y mae'n briodol cael epidwral, ac i rai cleifion nid yw'n bosibl cael un. Bydd eich anesthetydd yn trafod hyn â chi os oes angen. Efallai na fydd epidwral yn bosibl i chi os:

- ydych chi'n cymryd cyffuriau teneuo gwaed, fel warffarin
- nad yw eich gwaed yn ceulo'n iawn
- oes gennych chi alergedd i anesthetig lleol
- yw eich asgwrn cefn wedi'i anffurfio'n sylweddol
- oes gennych chi haint yn eich cefn
- ydych chi wedi cael llawdriniaeth ar yr asgwrn cefn o'r blaen gyda gwaith metel yn eich cefn.

## Sut mae rhoi epidwral?

Gellir rhoi epidwral:

- pan fyddwch chi'n gwbl effro
- gyda thawelyddion (cyffuriau sy'n eich gwneud chi'n gysglyd ac yn eich helpu i ymlacio).

Bydd eich anesthetydd yn trafod â chi pa ddull fyddai orau i chi. Dyma'r camau arferol ar gyfer cael epidwral:

- bydd yr anesthetydd neu'r cynorthwyydd yn cysylltu peiriannau i fesur cyflymder curiad eich calon, eich pwysedd gwaed a'ch lefelau ocsigen, ac unrhyw offer arall yn ôl yr angen
- gosodir caniwla (diferwr) mewn gwythïen yn eich braich ar gyfer rhoi hylif
- gofynnir i chi eistedd i fyny neu orwedd ar eich ochr
- byddwch yn cael eich helpu i blygu ymlaen, gan grymu eich cefn cymaint ag y gallwch – gweler uchod
- bydd yr anesthetydd yn glanhau'ch cefn ag antiseptig
- rhoddir chwistrelliad bach o anesthetig lleol i fferru'r croen

- defnyddir nodwydd i osod y cathetr yn eich cefn. Tynnir y nodwydd, gan adael dim ond y cathetr yn ei le, wedi'i sicrhau â thâp. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen rhoi mwy nag un cynnig arni
- yn aml, gosodir cathetr wrinol i ddraenio wrin o'ch pledren pan fyddwch yn cael epidwral. Gall eich anesthetydd drafod hyn ymhellach â chi.

### Sut mae cael epidwral yn teimlo?

Efallai y bydd y pigiad anesthetig lleol yn y croen yn llosgi am ychydig. Yna bydd teimlad o wthio, ond fel arfer dim mwy nag anghysur wrth i'r nodwydd a'r cathetr gael eu gosod.

Yn achlysurol, ceir poen pigog, neu wayw, fel sioc drydanol. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yn amlwg i'ch anesthetydd, ond dylech hefyd roi gwybod iddo neu iddi. Efallai y bydd yn gofyn i chi ble roeddech chi'n ei deimlo.

Bydd teimlad o gynhesrwydd a fferdod yn datblygu'n raddol ar ôl cael yr anesthetig lleol drwy'r cathetr. Gyda rhai mathau o epidwral, gall eich coesau deimlo'n drwm a dod yn anodd eu symud. Mae hyn yn normal.

Ar y cyfan, i'r rhan fwyaf o bobl nid yw'r teimladau hyn yn annymunol. Bydd teimlad a symudiad yn dychwelyd i normal pan fydd yr epidwral yn cael ei stopio. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen sawl cynnig i osod y cathetr epidwral yn y lle iawn.

## Y clinig asesu cyn llawdriniaeth (clinig cyn-asesu)

Os ydych chi'n cael llawdriniaeth wedi'i chynllunio efallai y cewch eich gwahodd i glinig asesu cyn llawdriniaeth ychydig wythnosau neu ddyddiau cyn eich llawdriniaeth. Weithiau, ar gyfer llawdriniaethau llai, bydd nyrs yn trefnu galwad ffôn i fynd trwy ychydig o gwestiynau gyda chi.

Dewch â'r canlynol gyda chi:

- rhestr o'ch meddyginiaethau presennol, neu'ch meddyginiaethau yn eu pecynnau llawn
- os ydych chi'n cymryd unrhyw gyffuriau i deneuo'ch gwaed, mae'n bwysig bod y tîm asesu cyn llawdriniaeth yn gwybod hyn ac yn trafod a oes angen i chi roi'r gorau i gymryd y cyffuriau hyn cyn eich llawdriniaeth
- unrhyw wybodaeth sydd gennych chi am brofion a thriniaethau yr ydych wedi'u cael mewn ysbytai eraill
- gwybodaeth am unrhyw broblemau y gallech chi neu'ch teulu fod wedi'u cael gydag anesthetig
- unrhyw fesuriadau pwysedd gwaed diweddar.

Efallai y byddwch yn cyfarfod anesthetydd yn y clinig. Fel arall, byddwch yn cyfarfod eich anesthetydd yn yr ysbyty ar ddiwrnod eich llawdriniaeth.

## Risgiau a phenderfynu ar y cyd

Mae anesthetigion modern yn ddiogel iawn. Mae rhai sgil-effeithiau cyffredin i'r cyffuriau anesthetig neu'r offer a ddefnyddir; nid ydynt fel

arfer yn ddifrifol nac yn para'n hir. Bydd y risgiau'n amrywio rhwng unigolion ac yn dibynnu ar y driniaeth a'r math o anesthetig a ddefnyddir.

Mae yna risgiau cyffredin sy'n gysylltiedig ag epidwral, gan gynnwys:

- pwysedd gwaed isel
- anhawster wrth basio wrin
- croen coslyd
- teimlo'n gyfoglyd
- cur pen/pen tost.

Mewn achosion prin gall epidwral achosi niwed dros dro neu barhaol i'r nerfau.

Bydd eich anesthetydd yn trafod â chi y risgiau y mae'n ystyried yn fwy arwyddocaol i chi. Bydd ond yn trafod risgiau llai cyffredin os ydynt yn berthnasol i chi.

Os hoffech chi ddarllen mwy am y risgiau sy'n gysylltiedig ag anesthesia, ewch i: www.rcoa.ac.uk/patientinfo/translations#languages

## Penderfynu ar y cyd

Mae penderfynu ar y cyd yn sicrhau bod unigolion yn cael cefnogaeth i wneud penderfyniadau sy'n iawn iddyn nhw. Mae'n broses gydweithredol lle mae clinigwr yn cefnogi claf i ddod i benderfyniad am ei driniaeth.

Bydd y sgwrs yn cyfuno:

- gwybodaeth arbenigol y clinigwr, megis opsiynau triniaeth, tystiolaeth, risgiau a buddion
- beth mae'r claf yn ei wybod orau: ei flaenoriaethau, amgylchiadau personol, nodau, gwerthoedd a chredoau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: www.england.nhs.uk/personalisedcare/shared-decision-making

Dyma rai adnoddau y gallwch eu defnyddio i wneud y gorau o'ch trafodaethau â'r anesthetydd neu'r staff asesu cyn llawdriniaeth:

### Choosing Wisely UK - fframwaith BRAN

Defnyddiwch y ddolen hon i'ch atgoffa i ofyn cwestiynau am eich triniaeth.
https://bit.ly/CWUK_leaflet

### NHS ask three questions

Efallai bydd dewisiadau i'w gwneud ynghylch eich gofal iechyd.
https://bit.ly/NHS_A3Qs

### The Centre for Perioperative Care (Canolfan Gofal Amdriniaethol) (CPOC)

Mae CPOC wedi cynhyrchu animeiddiad i egluro beth yw penderfynu ar y cyd.
www.cpoc.org.uk/shared-decision-making

## Cwestiynau yr hoffech chi eu gofyn

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch anesthetig, gwnewch nodyn ohonyn nhw (gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau isod ac ychwanegu eich rhai eich hun yn y gofod isod). Os hoffech chi siarad ag anesthetydd cyn diwrnod eich llawdriniaeth, cysylltwch â'r tîm asesu cyn llawdriniaeth a fydd efallai'n gallu trefnu i chi siarad ag anesthetydd ar y ffôn neu mewn clinig.

**1. Pam ydych chi'n argymell epidwral i mi?**
**2. Beth yw manteision ac anfanteision epidwral i mi?**
**3. Beth am y dewisiadau eraill?**

### Ymwadiad

Rydym ni'n ceisio sicrhau bod yr wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ac yn gyfoes, ond ni allem warantu hynny. Nid ydym yn disgwyl i'r wybodaeth gyffredinol hon ateb pob cwestiwn sydd gennych, na delio â phopeth sydd o bwys i chi. Dylech drafod eich penderfyniadau ac unrhyw amheuon sydd gennych chi gyda'ch tîm meddygol, gan ddefnyddio'r daflen hon fel canllaw. Ni ddylid ystyried y daflen hon, ar ei phen ei hun, yn gyngor. Ni ellir defnyddio'r daflen hon at unrhyw bwrpas masnachol nac unrhyw bwrpas busnes. I weld yr ymwadiad llawn, cliciwch yma (www.rcoa.ac.uk/patient-information/translations/welsh).

Mae pob cyfieithiad yn cael ei darparu gan gymuned cyfieithwyr Translators Without Borders. Mae ansawdd y cyfieithiadau yn cael ei gwirio er mwyn sicrhau bod y cyfieithiadau mor gywir ag sy'n bosib, ond mae yna risg o anghywirdebau a chamddehongli peth gwybodaeth.

## Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau, e-bostiwch: patientinformation@rcoa.ac.uk

**Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**
Churchill House, 35 Red Lion Square, London WC1R 4SG
020 7092 1500

## www.rcoa.ac.uk

### Chweched Argraffiad, Mehefin 2023

Bydd y daflen hon yn cael ei hadolygu o fewn tair blynedd o ddyddiad ei chyhoeddi.

**© 2023 Royal College of Anaesthetists (Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion)**
Caniateir copïo'r daflen hon at ddibenion cynhyrchu deunyddiau gwybodaeth i gleifion. Dyfynnwch y ffynhonnell wreiddiol hon. Os ydych am ddefnyddio rhan o'r daflen hon mewn cyhoeddiad arall, rhaid rhoi cydnabyddiaeth addas a thynnu'r logos, y brandio a'r delweddau. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni.